# Rhannu'r pizzas

Family Maths Toolkit

**Mewn pryd teuluol mae yna 3 pizza a 4 o bobl i'w rhannu. Mae pob un pizza yn un caws.**



Mewn sawl ffordd wahanol y gallech chi eu rhannu fel bod pawb yn cael yr un faint?
A fyddai hyn yn wahanol pe byddai un pizza yn pizza caws, un yn pizza ham, ac un yn pizza corgimwch? Sut y byddech yn eu rhannu 'nawr?
Gwnewch eich hoff pizza i'ch teulu – faint o bobl a fyddai'n ei rannu? Faint o pizzas y byddech chi'n eu cael?

**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Adnabod, canfod, enwi ac ysgrifennu ffracsiynau siâp, set o wrthrychau neu faint; adnabod cywerthedd dau chwarter a hanner.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Meddyginiaeth milfeddyg

Family Maths Toolkit



**Mae potel o feddyginiaeth yn dal 50 ml.**

**Mae ar gath angen 5 ml bob dydd, mae ar gwningen angen 4 ml, mae ar gi angen 20 ml, mae ar geffyl angen 30 ml, mae ar fochyn cwta angen 3 ml, mae ar afr angen 25 ml, ac mae ar fadfall angen 2 ml.**


Pa mor hir fyddai potel yn para ar gyfer pob anifail?

Dychmygwch eich bod yn filfeddyg yn eich cymdogaeth: pa anifeiliaid sydd gennych yn eich milfeddygfa ar hyn o bryd? Faint o feddyginiaeth y bydd arnoch ei hangen?

A allwch ddod o hyd i botel sy'n dal 200 ml, neu tua hynny, yn eich tŷ? Ar gyfer beth y mae'n cael ei defnyddio?

Defnyddiwch < (llai na); > (mwy na) neu = (yn hafal i).
Er enghraifft: potel o saws tomato > 200 ml.

Pa mor hir yr ydych yn meddwl y bydd yn para ar gyfer eich teulu chi?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Defnyddio unedau safonol priodol i amcangyfrif, mesur, cymharu a threfnu capasiti (l/ml); defnyddio <, > a =

nationalnumeracy.org.uk

National Numeracy
Getting on with numbers

Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669

# Yn y sw

Family Maths Toolkit


**Mae yna lawer o fathau gwahanol o anifeiliaid yn y sw. Mae gan rai 2 goes, mae gan rai 4 coes, mae gan rai fwy na 4 coes, a does gan rai ddim coesau o gwbl!**




A allwch chi a'ch teulu neu'ch ffrindiau feddwl am yr holl anifeiliaid sw yr ydych yn eu hoffi, a chyfrif faint sy'n ffitio i bob grŵp yn ôl faint o goesau sydd ganddynt?

Gallech dynnu llun, pictogram, siart cyfrif, siartiau bar neu dabl.

A allwch feddwl am anifail ar gyfer pob grŵp? Pa grŵp oedd â'r mwyaf? Faint yn fwy oedd â 4 coes o gymharu â'r rhai a oedd heb goesau?



**Sylwadau'r teulu:**

**Sylwadau'r plentyn:**

**Cyswllt Cwricwlwm**

Coladu, trefnu a chymharu gwybodaeth gan ddefnyddio pictogramau, siartiau cyfrif, diagramau bloc neu dablau syml.



Hawlfraint © NationalNumeracy 2021. Gwaherddir copïo, llogi a benthyca masnachol. Rhif elusen gofrestredig: 1145669